**Grŵp Trawsbleidiol Senedd Cymru ar Hawliau Digidol a Democratiaeth, 3 Chwefror 2023**

**Arwylio a Thechnoleg Adnabod Wynebau**

Siaradwyr:
Sarah Murphy AS (Cadeirydd)
Ed Bridges (Yr Achos: Ed Bridges yn erbyn Heddlu De Cymru)
Madeleine Stone (Big Brother Watch)
Stephanie Hare (Ymchwilydd)

**Cyflwyniadau**

- Roedd sylwadau cychwynnol Sarah Murphy AS yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad drwy lens cyfiawnder data. Erbyn hyn, mae'r Senedd yn ymgysylltu â chynghorydd arbenigol, sy'n bwysig iawn i gefnogi'r gwaith hwn.

- Mae Chloe Rees, sy'n gweithio gyda Sarah Murphy, hefyd wedi sicrhau dadl ar fiometreg mewn ysgolion yn y Siambr ym mis Mawrth eleni. Mae croeso i gyfranogwyr gynnig materion i'w cynnwys yn y ddadl hon.

- Fis Mehefin diwethaf, gofynnodd Sarah Murphy i'r Gweinidog am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg o'r fath.

- Yr ymateb a gafwyd oedd bod yn rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am ddefnyddio offer sy'n gwneud penderfyniadau ar sail algorithm ddeall galluoedd a chyfyngiadau'r offer hyn, yn ogystal ag ystyried yn ofalus a fydd unigolion yn cael eu trin yn deg yn y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod lefelau priodol o fewnbwn gan bobl yn y broses o wneud penderfyniadau. Rhaid iddynt roi strwythurau ar waith i gasglu data a monitro canlyniadau er tegwch, deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol, cynnal asesiadau risg a chadw cofnod o'r risg o duedd.

- Gofynnwyd hefyd pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith defnyddio technoleg adnabod wynebau gan Heddlu De Cymru ar yr hawl i breifatrwydd, a pha asesiad oedd y Gweinidog wedi'i wneud o effaith wahaniaethol technoleg adnabod wynebau ar fenywod a lleiafrifoedd ethnig?

- Yr ymateb oedd bod defnyddio technoleg adnabod wynebau 'byw' yn benderfyniad gweithredol i'r heddlu. O gofio bod plismona yn fater a gedwir yn ôl, y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am bolisi yn y maes hwn.

**Ymyrraeth ddiwahân ac anghymesur â phreifatrwydd**

- y siaradwr cyntaf oedd Ed Bridges, ymgyrchydd dros ryddid sifil a wnaeth yr achos fod cipio delweddau o filoedd o wynebau gan heddlu Cymru yn ymyrraeth ddiwahân ac anghymesur yn yr her gyfreithiol gyntaf yn y byd yn erbyn defnydd yr heddlu o'r dechnoleg hon – yn groes i hawliau i breifatrwydd, deddfwriaeth ar ddiogelu data a chyfreithiau cydraddoldeb.
- Ym mis Medi 2019, penderfynodd yr Uchel Lys fod defnyddio technoleg adnabod wynebau 'byw' yn ymyrryd â hawliau i breifatrwydd pawb sy'n cael ei sganio ond bod y fframwaith cyfreithiol presennol yn darparu mesurau diogelu digonol.

- Ym mis Awst 2020, cytunodd y Llys Apêl ag achos Liberty, gan ddod i'r casgliad bod defnydd heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau yn groes i hawliau i breifatrwydd, deddfwriaeth ar ddiogelu data a chyfreithiau cydraddoldeb.

- Ar ddau bwynt allweddol, canfu'r llys fod hawl Bridges i breifatrwydd o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i hesgeuluso.

- Ar bwynt arall, daeth y llys i'r casgliad fod yr heddlu wedi methu ag ymchwilio'n briodol i ganfod a oedd y feddalwedd yn dangos gogwydd o ran rhywedd.

- Daeth Bridges â'r achos hwn am y tro cyntaf ar ôl y defnydd cychwynnol o dechnoleg adnabod wynebau yn Ne Cymru yn 2017, a chymerodd tan fis Awst 2020 i'r Llys Apêl wneud ei ddyfarniad.

- Cododd Bridges yr achos fel dinesydd oherwydd ei fod o'r farn bod y defnydd cynyddol o dechnoleg adnabod wynebau awtomataidd (AFR) o fewn cymdeithas yn broblematig.

- Y prif resymau dros godi'r achos oedd diffyg caniatâd, effaith niweidiol AFR a thuedd gynhenid y system.

- O ran caniatâd, dywedwyd ei bod yn bwysig nodi'r ffordd y mae'r dechnoleg yn llunio map biometrig o'ch wyneb, ac yn ei wirio yn erbyn cronfa ddata. Mae'r map biometrig hwn yn unigryw i bob unigolyn; awgrymwyd ei fod yn debycach i olion bysedd na delwedd. Dychmygwch pe bai heddlu De Cymru neu heddluoedd eraill yn stopio pobl wrth iddynt gerdded ar hyd y stryd fawr leol i gymryd eu holion bysedd ar y siawns eu bod yn droseddwyr yr oedd yr heddlu yn chwilio amdanynt; byddai pobl yn sicr yn gwrthwynebu hynny.

- Eglurodd Bridges mai dyna sut yr oedd yn teimlo y tro cyntaf i'w ddelwedd gael ei sganio gan AFR; hynny yw, ei fod yn teimlo bod y dechnoleg wedi ymyrryd â'i breifatrwydd, er ei fod yn ymddwyn yn berffaith gyfreithiol.

- Yn yr apêl lwyddiannus, dywedodd y Comisiynydd Gwybodaeth fod AFR yn golygu bod data personol yn cael eu casglu ar sail gyffredinol a diwahân.

- Awgrymwyd bod cipio data pobl heb eu caniatâd yn golygu bod pob un ohonom i bob pwrpas yn cael ein trin fel troseddwyr, sy'n egwyddor y byddai'r rhan fwyaf o bobl resymol yn ei gwrthwynebu.

- O ran yr effaith niweidiol, nododd Bridges mai ei ail brofiad o AFR oedd pan gafodd y dechnoleg hon ei defnyddio gan Heddlu De Cymru mewn ffair arfau yng Nghaerdydd lle'r oedd yn protestio gyda'r Crynwyr a grwpiau heddwch. Defnyddiwyd AFR y diwrnod hwnnw ac mae'r un dechnoleg wedi'i defnyddio yn ystod protestiadau heddychlon eraill ers hynny mewn ffordd sy'n gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu troseddoli, neu fod eu delwedd a'u data wedi'u cipio gan yr heddlu oherwydd eu bod yn arfer eu hawl gyfreithlon i brotestio mewn ffordd heddychlon. Mae hynny'n effeithio'n niweidiol ar hawliau – hynny yw, sut y gall pobl brotestio'n heddychlon yn erbyn y wladwriaeth pan fydd y wladwriaeth honno yn eu sganio ac yn cipio eu data personol? Pe bai'r un peth yn digwydd yn Tsieina neu Rwsia, byddai'n cael ei ddisgrifio fel camddefnydd o bŵer.

- O ran tuedd, ni all AFR ond fod cystal â'r algorithm sy'n cefnogi'r dechnoleg. Mae digon o ddata sy'n dangos bod meddalwedd adnabod wynebau yn llai effeithiol o ran llwyddo i adnabod wynebau benywaidd a wynebau nad ydynt yn wyn. Yn achos Bridges, nododd y Llys Apêl nad oedd heddlu De Cymru erioed wedi ceisio bodloni eu hunain, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddilysiad annibynnol, nad oedd y feddalwedd yn yr achos hwn yn dangos gogwydd annerbyniol ar sail hil neu ryw.

- Ni fu dadl gyhoeddus lawn, na hyd yn oed ymgynghoriad cyhoeddus, ynghylch y defnydd o AFR yn Ne Cymru. Gofynnodd Bridges beth oedd y rheswm am hynny. Pam bod y dechnoleg hon yn cael ei chyflwyno heb unrhyw ymgais i ddeall pryderon y cyhoedd, nac i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â chwestiynau dilys ynghylch rhyddid sifil, ymgyrchwyr a sefydliadau? A yw hynny'n dderbyniol ac ai dyna sut yr ydym yn meddwl y dylai'r wladwriaeth fod yn gweithredu?

**Anghydnaws â democratiaeth**

- Siaradodd Madeleine Stone o Big Brother Watch (BBW), sy'n arbenigo mewn technoleg gwyliadwriaeth a'i heffaith ar hawliau dynol, am brofiad y sefydliad wrth olrhain twf technoleg adnabod wynebau yn y DU ers iddi gael ei defnyddio am y tro cyntaf.

- Cafodd cynllun peilot i dreialu technoleg adnabod wynebau ei lansio yn 2016, ac mae BBW wedi bod yn bresennol wrth i'r dechnoleg gael ei defnyddio yn Llundain ac yng Nghaerdydd ers 2017. Maent wedi bod yn bresennol ar bob achlysur pan gafodd y dechnoleg ei defnyddio yn Llundain.

- Wrth ddisgrifio sut brofiad yw hi i bobl ar lawr gwlad, soniodd am deimlo fel petai llu o swyddogion heddlu o'ch amgylch a bod cerbyd enfawr yn sganio'ch wyneb.

- Erbyn hyn, mae cwmnïau preifat hefyd yn defnyddio technoleg adnabod wynebau, gan gynnwys Southern Co-Op, sy'n defnyddio system adnabod wynebau 'byw' mewn 35 siop ledled de Lloegr gyda hyd yn oed llai o oruchwyliaeth na'r heddluoedd.

- Technoleg adnabod wynebau 'byw' yw'r defnydd o'r dechnoleg sy'n peri'r pryder mwyaf yn y DU, yn ôl Stone, ac sydd â'r risg fwyaf i breifatrwydd.

- Nid yw BBW yn absoliwtaidd ynghylch arwylio. Mae yna le ar gyfer defnydd cymesur o dechnoleg arwylio wedi'i thargedu yng nghyd-destun unigolion sydd o dan amheuaeth. Nid ydynt ychwaith yn gyfan gwbl yn erbyn y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau gan heddluoedd. Er enghraifft, maent yn derbyn y gallai defnydd ôl-weithredol o'r dechnoleg fod â rôl i'w chwarae mewn plismona, gyda mesurau diogelu llym iawn ar waith nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.

- Yn y bôn, mae technoleg adnabod wynebau 'byw' yn gwirio hunaniaeth pob person sydd gerllaw. Nid yw'n gwahaniaethu rhwng pobl ddieuog a phobl euog, ac yn y pen draw mae'n trin pawb fel pobl o dan amheuaeth.

- Mewn byd dystopaidd, mae pobl yn aml yn dychmygu gosod microsglodion o dan y croen, ond pan fydd yr heddlu'n gallu sganio'ch wyneb, mae ganddyn nhw eisoes god bar maen nhw'n gallu ei wirio yn erbyn cronfa ddata, felly nid oes angen microsglodion arnynt.

- Caiff technoleg adnabod wynebau ei defnyddio gan heddluoedd yn y DU, yn ogystal ag yn Tsieina a Rwsia. Nid yw'r gwledydd hyn yn enwog am barchu hawliau dynol. Yn Iran ar hyn o bryd, caiff technoleg adnabod wynebau ei defnyddio i nodi menywod nad ydynt yn gwisgo burka. Nid yw'r math hwn o dechnoleg yn cyd-fynd â'r cysyniad o wlad sy'n parchu hawliau democrataidd, meddai Stone.

- Mae technoleg adnabod wynebau yn newid ein perthynas â'r heddlu – yn arferol, rydym yn cael ein plismona trwy ganiatâd ac mae gennym hanes cryf o wrthod y defnydd o gardiau adnabod. Ni chaniateir i'r heddlu fynnu manylion adnabod am ddim rheswm. Fodd bynnag, mae technoleg adnabod wynebau yn sganio pawb.

- Mae technoleg adnabod wynebau felly yn hynod andwyol i breifatrwydd a'n hawl i fod yn ddienw mewn mannau cyhoeddus.

- Mae gwahaniaethu a thuedd yn sgil-effeithiau hefyd, y tu hwnt i ragfarn algorithmig o ran cam-adnabod unigolion, gan newid y ffordd y mae'r heddlu yn trin rhai pobl.

- Mae'r heddlu yn aml yn trin pobl mewn ffordd eithaf amharchus pan fyddant yn eu stopio, hyd yn oed os cawsant eu nodi gan y dechnoleg ar gamgymeriad. Gall yr heddlu hefyd ymddwyn mewn ffordd ymosodol.

- Er enghraifft, mewn achos yn Romford yn Llundain, roedd person ifanc du 14 oed mewn gwisg ysgol ar y ffordd adref o'r ysgol pan gafodd ei nodi ar gamgymeriad gan dechnoleg adnabod wynebau. Gan mai dyna oedd ei brofiad cyntaf o'r dechnoleg, nid oedd yn gwybod beth oedd yn digwydd iddo pan gafodd ei amgylchynu gan swyddogion dillad plaen a'i dywys i mewn i ali, cyn iddynt ofyn iddo roi ei olion bysedd a'i fanylion personol. Nid oedd yn gwybod mai swyddogion yr heddlu oedd o'i amgylch cyn i swyddogion mewn lifrai ymddangos hefyd. Nid oedd ganddo gerdyn adnabod oherwydd ei fod yn 14 oed a cheisiodd ddefnyddio ei dei ysgol i wirio ei hunaniaeth. Roedd y profiad yn un ysgytwol.

- "Mae'n brofiad negyddol iawn o'r heddlu i berson ifanc. Ac nid yn unig y mae'n ei adael gyda'r argraff y gallai'r heddlu fod yn hiliol, ond y gallai'r dechnoleg y maent yn ei defnyddio fod yn hiliol hefyd. Mae hynny'n rhywbeth sy'n llawer anoddach brwydro yn ôl yn ei erbyn, os ydych chi'n teimlo bod gan y systemau amrywiol y mae'r heddlu yn eu defnyddio ragfarn yn eich erbyn."

- Hyd yn oed pe bai'r dechnoleg hon yn gweithio'n berffaith, y broblem yw bod cyfran amghymesur o'r bobl sydd wedi'u llwytho ar y rhestrau gwylio yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n golygu bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu stopio a'u cam-adnabod fel mater o drefn – rhywbeth y mae BBW wedi'i weld yn Llundain droeon.

- Mewn enghraifft arall, roedd dyn du ifanc yn ei arddegau yn siopa gyda'i ffrindiau yn Oxford Circus pan gafodd ei amgylchynu gan nifer o swyddogion yr heddlu. Ni chafodd ganiatâd i adael nes iddo roi ei olion bysedd neu ddangos ei fanylion adnabod. Cafodd ei ddal am 15 munud oherwydd bod y plismyn yn awyddus i gasglu tystiolaeth ei fod wedi tramgwyddo. Yn y diwedd bu'n rhaid iddynt ei adael i fynd.

- Mae'r achosion hyn yn brin ar hyn o bryd, ond wrth i'r dechnoleg ddenu mwy o fuddsoddiad, byddant yn llawer mwy rheolaidd. Os yw nifer y bobl sy'n cael eu stopio yn cynyddu, a bod yr achlysuron hyn yn codi'n amlach, mae'n bosibl y bydd nifer sylweddol o bobl yn cael eu hadnabod ar gamgymeriad.

- Gall fod yn brofiad brawychus. Mae'r Grŵp Cymorth Tiriogaethol hefyd wedi bod yn bresennol yn rhai o'r achosion hyn, ac mae'r swyddogion hyn yn cario dyfeisiau 'taser'.

- Y risg gyda'r math hwn o dechnoleg yw ei bod yn llethr llithrig ac nid ydym yn gwybod i le y gall arwain.

- Nid yw ychwaith yn ffordd arbennig o hyfyw yn ariannol i barhau i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau, os yw heddluoedd am ei defnyddio'n gyson. Mae'n codi'r cwestiwn y byddwn o bosibl yn gweld technoleg adnabod wynebau yn cael ei defnyddio mewn teledu cylch cyfyng. Mae hynny wedi'i awgrymu yn Iwerddon, ac mae'n bwysig cadw mewn cof yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Tsieina a Rwsia. Hefyd, mae'n ymddangos mai dyna fydd cyrchfan naturiol y math hwn o

dechnoleg, o gofio ei bod yn gallu treiddio i bob agwedd ar fywyd bob dydd, sy'n peri risg wirioneddol i hawliau.

- O ystyried yr argyfwng o ran ymddiriedaeth mewn heddluoedd ar hyn o bryd, gofynnodd Stone a ddylai'r heddlu fod yn defnyddio technoleg mor ddadleuol ac ymledol, pan nad oes unrhyw oruchwyliaeth ddemocrataidd wirioneddol.

- Ychwanegodd fod y diffyg goruchwyliaeth ddemocrataidd mewn perthynas â'r dechnoleg hon yn syfrdanol.

- Mae'r dechnoleg hon yn gallu arwain at litani o risgiau o ran hawliau dynol, preifatrwydd a rhyddid mynegiant; risgiau yng nghyd-destun protestiadau; risgiau o ran gwahaniaethu yn erbyn menywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r dechnoleg wedi cael ei defnyddio i stopio pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhag mynd i ddigwyddiadau penodol. Rhaid cofio nad yw'r bobl hyn o dan amheuaeth am unrhyw drosedd.

— Nid yw'r defnydd o'r dechnoleg hon erioed wedi bod yn destun dadl yn y Senedd. Nid oes yr un gyfraith yn cynnwys y geiriau 'adnabod wynebau'. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn goruchwylio sut y caiff y dechnoleg ei defnyddio. Mae'r unig bwyllgorau seneddol sydd wedi trafod y mater hwn wedi argymell y dylid cyflwyno moratoriwm ar y defnydd o'r dechnoleg. Fodd bynnag, cafodd yr argymhelliad hwn ei anwybyddu.

- "I bob pwrpas, mae heddluoedd yn ysgrifennu eu rheolau eu hunain ar sut mae'r dechnoleg hon yn cael ei defnyddio, sy'n eithaf syfrdanol."

- Mae defnyddio'r dechnoleg yn benderfyniad dadleuol a gwleidyddol, a dywedodd Stone nad yw'n briodol i heddluoedd fod yn gyfrifol am benderfynu sut i'w defnyddio.

- Mae heddluoedd wedi bod yn eithaf amharod i fod yn hollol dryloyw ac mae wedi cymryd sawl blwyddyn i sefydliadau fel BBW a Liberty wthio, drwy heriau cyfreithiol, i sicrhau tryloywder llwyr.

- Comisiynodd Heddlu'r Met adolygiad ynghylch i ba raddau y mae technoleg adnabod wynebau 'byw' yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn ogystal â'r risgiau cysylltiedig o ran hawliau dynol. Casgliad yr adolygiad oedd bod y dechnoleg yn fygythiad difrifol i hawliau dynol, a chafodd yr adroddiad cysylltiedig ei gladdu.

- Er y dywedodd Stone fod Sarah Murphy wedi gwneud gwaith gwych i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru, ychwanegodd fod angen i Senedd Cymru chwarae mwy o rôl gan fod y dechnoleg yn cael effaith aruthrol ar ddinasyddion Cymru. Mae angen llawer mwy o atebolrwydd democrataidd, yn ogystal â gwaith craffu ar sut mae'r broses yn gweithio.

- Gorffennodd Stone drwy gyfeirio at fyfyriwr cyfnewid o Ffrainc a gafodd ei gam-adnabod yn Llundain y llynedd. Cafodd y myfyriwr ei nodi gan dechnoleg adnabod wynebau a'i stopio gan swyddogion yr heddlu am oddeutu 15 munud i gymryd cofnod o'i olion bysedd. Pan siaradodd BBW ag ef wedyn, dywedodd ei fod yn 'ymwybodol bod gennym y math hwn o dechnoleg yn Tsieina'. Mae hynny'n rhywbeth i fyfyrio arno, o ran y math o drywydd yr ydym yn ei ddilyn, gan ein bod yn fwyfwy dibynol ar y technolegau ymledol hyn.

**Ni all plant gydsynio**

- Rhoddodd Stephanie Hare gyflwyniad ac esboniodd ei bod wedi ysgrifennu llyfr, 'Technology is Not Neutral: A short guide to technology ethics', sy'n cynnwys pennod gyfan ar dechnoleg adnabod wynebau.

- Myfyriodd Hare ar esblygiad agweddau tuag at fanylion adnabod a biometreg. Er enghraifft, ar un adeg dywedodd Boris Johnson y byddai'n bwyta'r cerdyn adnabod pe byddech yn gofyn am ei weld, ond wedyn aeth ei Lywodraeth ati i hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg biometrig a thechnoleg arwylio.

- Mae rhai mathau o dechnoleg ac arferion prosesu data wedi bod yn destun profion trwyadl–er enghraifft, gwiriadau wrth groesi ffiniau cenedlaethol neu ddatgloi eich ffôn clyfar–ond mae llawer o fathau eraill yn destun dadleuon, gan gynnwys defnyddio'r dechnoleg i adnabod rhywun mewn ystafell orlawn, sef yr hyn yr ydym yn sôn amdano yn y fan hyn, yn ogystal ag unrhyw ddefnydd sy'n gysylltiedig â phlant.

- Disgwylir diweddariad gan swyddfa'r Comisiynydd Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth ym mis Chwefror, a chaiff yr adroddiad blynyddol cysylltiedig ei osod gerbron Senedd y DU. Gellir gofyn iddynt am nodyn briffio ar yr adroddiad hwn.

- Gan fod hawliau sifil yn wahanol ym mhob gweinyddiaeth datganoledig, mae'n bwysig nodi nad yw Police Scotland yn defnyddio technoleg adnabod wynebau. Yn 2020, cafwyd cadarnhad nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r dechnoleg hon ar y pryd. Gall yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon a Chymru fod yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr.

- Mae'n anodd dod o hyd i algorithmau sy'n rhydd o ragfarn, ac mae'r data a ddefnyddir yr un mor bwysig â'r bobl sy'n gyfrifol am y dechnoleg a chyfansoddiad eu timau. Mae rhagfarn yn rhan o'r broses ar bob cam.

- Mae pobl yn ymwybodol o'r camddefnydd a'r tuedd sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg hon, felly dylai'r heddlu fod yn ymwybodol hefyd y gallai defnyddio'r dechnoleg achosi problemau o ran ymddiriedaeth ymhlith cymunedau o liw.

- Tarodd Prydain y penawdau ledled y byd y llynedd oherwydd technoleg gwirio wynebau, sy'n fath o dechnoleg adnabod wynebau sy'n cael ei defnyddio mewn ysgolion yng Ngogledd Swydd Efrog.

- Pan ofynnodd Hare i gomisiynydd biometreg yr Alban am hyn, fe atebodd nad oedd y mater yn rhan o'i gylch gorchwyl oherwydd nid oedd yn gysylltiedig â throseddau. Fodd bynnag, roedd y comisiynydd o'r farn y dylai plant ysgol yn yr Alban allu eistedd yn y dosbarth neu'r ffreutur heb gael eu gwylio a'u recordio. Mae hynny'n bwydo i mewn i'r rheolau ynghylch cymesuredd ac anghenraid.

- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth newydd ddatgan bod y dechnoleg wedi'i defnyddio mewn modd sy'n debygol o fod wedi torri'r gyfraith ym maes diogelu data a'i bod yn annhebygol o gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

- Mae'n bwysig gofyn a all plant gydsynio. A allant ddarllen yr holl waith ymchwil a'r ddeddfwriaeth i wneud dewis gwybodus? Mae'n debyg y byddant yn cydsynio dim ond er mwyn iddynt allu bwrw ymlaen â'r diwrnod, felly mae'r anghydbwysedd o ran pŵer yn amlwg.

- Er nad yw plant yn yr Alban yn dod o dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau, caiff plant Cymru eu cwmpasu ganddi. Mae cwestiwn yn codi o ran plant ifanc yn dod i arfer â chael eu gwylio fel hyn,

a'u haddysgu i ddefnyddio eu cyrff yn effeithiol, i fenthyg llyfr o'r llyfrgell, i dalu am ginio ysgol yn y ffreutur, neu hyd yn oed i gofrestru bob bore.

- Ym marn Hare, ni ddylid defnyddio'r dechnoleg ar blant o gwbl a dylai amddiffyniad arbennig fod yn ei le yn y cyswllt hwn.

- Prin fu'r ymdrechion ar lefel seneddol i sicrhau goruchwyliaeth o'r defnydd o'r dechnoleg hon.

**Camau eraill i'w cymryd**

- Nodwyd bod rhai grwpiau yn gwneud gwaith da wrth fonitro'r gwaith o ddatblygu polisïau a thechnolegau sy'n gysylltiedig ag adnabod wynebau. Yn benodol, cyfeiriwyd at BBW, Liberty, y grŵp hawliau agored, Cynghrair Cyfiawnder Algorithmig, Ymddiriedolaeth Runnymede, y Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol a'r Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr.

- Mae ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig yn hynod o bwysig hefyd. Po fwyaf o e-byst sy'n dod i law gan eu hetholwyr ar y pwnc hwn, y mwyaf tebygol y bydd gwleidyddion yn ymwybodol o'r mater.

- Gan nad yw plismona a chyfiawnder wedi'u datganoli yng Nghymru, er bod trafodaethau'n digwydd ynghylch hynny, nid oes llawer a all ddigwydd yn y Senedd i herio'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau.

- Mae deddfwriaeth ym maes diogelu data yn rhoi rhai hawliau – er enghraifft, os ydych mewn gêm bêl-droed ac mae'r heddlu'n ffilmio'r rhan o'r dorf yr ydych ynddi, mae gennych hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data i ysgrifennu at yr heddlu a gofyn am gael gweld y recordiad perthnasol. Mae'n rhaid i'r heddlu ddarparu'r recordiad yn yr achos hwnnw, ond nid oes unrhyw gymalau cyfatebol ynghylch y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau. Dyma'r Gorllewin Gwyllt, mewn termau cyfreithiol.

- Erbyn hyn, mae'r dechnoleg a ddefnyddir mewn camerâu teledu cylch cyfyng wedi datblygu'n helaeth, gan gynnwys technoleg adnabod wynebau a thechnoleg dadansoddi symudiadau. Mae'r dechnoleg hon hefyd yn gallu adnabod rhywedd, dadansoddi'r ffordd y mae unigolion yn cerdded, dadansoddi ymddygiad tyrfaoedd, canfod gwrthrychau penodol, adnabod masgiau a nodi'r tymheredd. Mae BBW wedi tynnu sylw at gwmni camera Hikvision, sy'n eiddo i'r wladwriaeth Tsieineaidd, ac sydd wedi'i gysylltu ag achosion difrifol o gamdrin hawliau dynol yn Tsieina.

- Mae'r un cwmni hefyd yn hysbysebu technoleg cydnabyddiaeth ethnigrwydd yn y DU, sef yr un dechnoleg a ddefnyddir i fonitro, dal ac erlid Mwslimiaid Uighur yn Tsieina. Mae hyn yn dangos i ba raddau y mae'r defnydd o dechnoleg arwylio wedi mynd allan o reolaeth yn y DU o ran teledu cylch cyfyng.

- Mae'n amhosibl i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gadw golwg ar bob camera teledu cylch cyfyng.

- Lincs i ragor o wybodaeth:
https://londonpublishingpartnership.co.uk/technology-is-not-neutral/
www.harebrain.co
https://bigbrotherwatch.org.uk/campaigns/stop-facial-recognition/https://bigbrotherwatch.org.uk/campaigns/stop-facial-recognition/
https://www.netflix.com/gb/title/81328723

https://www.huntonprivacyblog.com/2020/08/12/uk-court-of-appeal-finds-automated-facial-recognition-technology-unlawful-in-bridges-v-south-wales-police/
https://www.libertyhumanrights.org.uk/issue/legal-challenge-ed-bridges-v-south-wales-police/
https://docs.google.com/document/d/e/2PACX-1vSX_oBK2O-lseme88chci-3iXFXmUY_v3OC90r4b4Ri-FBptN6Y1O0KY7nyjARCS_hjnhwrr1BjKVHq/pub
https://scotland.openrightsgroup.org/